

GWYNNE o LANELWEDD yn sir Faesyfed.

Ymddengys i deulu ' Gwyn ' yn Llanelwedd gychwyn gyda mab ieuengaf i Rydderch ap Dafydd Goch Gwyn, o dylwyth mawr a changhennog Glanbrân (Llanymddyfri) a manau eraill; y mae ymdriniaeth helaeth â'r tylwyth hwn yn *Old Wales* (gol. [W. R. Williams](#)), ii, iii (mynegai), ac argraffwyd achau, anghyson ar brydiau, yn [Theophilus Jones](#), *Hist. of Brecknock*, 3ydd arg., iii, 199-200; iv, 246-8 - yr ach rhif 21 sy'n delio'n unswydd â Llanelwedd; ac yn [Bradney](#), *Monmouthshire*, I, i, 408-9. Yr oedd RODERICK GWYNNE o Lanelwedd yn siryf Maesyfed yn 1633. Breniniaethwr oedd ef, a bu'n casglu milwyr i'r brenin. Daeth ei ferch, SIBIL GWYNNE, yn wraig i'w châr GEORGE GWYNNE, Glanbrân (ganwyd 1623?), a arwyddodd yn 1645 y cynnig am heddwch a anfonodd uchelwyr Sir Gaerfyrddin i [Rowland Laugharne](#), ac a fu ddwywaith yn ddirprwywr dan Cromwell ac yn aelod seneddol dros sir Faesyfed yn 1654 a 1656; ond ymchwelodd wedyn at blaid y brenin, ac yr oedd yn aelod seneddol dros Faesyfed yn yr Adferiad, ac yn siryf Mynwy (sir ei fam) yn 1663. Mab hynaf y briodas hon oedd Syr ROWLAND GWYNNE (1660 - 1726), a aeth i Goleg S. Ioan yn Rhydychen ac i Gray's Inn, ac a fu'n aelod seneddol am 23 blynedd o'r bron; dros sir Faesyfed 1678-85, dros Frycheiniog 1689-90, 1698, 1700-1, a thros fwrdeisdref yn Lloegr yn y blynyddoedd eraill. Er i Siarl II ei urddo'n farchog (1680), Chwig pendant oedd Rowland Gwynne, a chenir ei glod gan Macaulay yn ei *History*. Efe a awgrymodd y ' Llw o Ffyddlonddeb ' i Wilym III yn 1696, a bu'n selog amddiffyn y canghellor Somers. Daliodd swydd yn y Llys dan Wilym a Mari, ond collodd ffafwr y frenhines Anne, a bu farw 24 Ionawr 1725-6 'within the Fleet,' h.y. yn fethdalwr. Beth yn union a ddaeth o Lanelwedd ar y pryd, nid eglurir yn unman, ond daw i'r golwg yn nes ymlaen yn eiddo i [Gwynniaid](#) y Garth.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

